POLISI PREIFATRWYDD

Mae’r Polisi hwn yn disgrifio’r ffordd yr ydym yn casglu gwybodaeth gan ddefnyddwyr Gwefan Atal Tân (y wefan y gellir mynd ati drwy’r cyfeiriad www.ataltan.org ac www.firebrake.org), y math o wybodaeth bersonol a chyfrinachol y byddwn yn ei chasglu, a’r hyn y byddwn yn defnyddio’r wybodaeth honno ar ei chyfer.

Mae’r cyfeiriadau yn y Polisi hwn at "ni" yn golygu Ymddiriedolaeth Diogelwch Tân Cymunedol Cymru Cyfyngedig, sef elusen wedi ei chofrestru dan y rhif 1100964 a chwmni cyfyngedig trwy warant, rhif y cwmni 4556865, sydd â’i swyddfa gofrestredig ar y Llawr Gwaelod, 6 Hazell Drive, Casnewydd NP10 8FY.

Dim ond yn y ffordd a nodir yn y Polisi hwn y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth y byddwn yn ei chasglu amdanoch chi. Rydym wedi ymrwymo i ddiogelu eich gwybodaeth bersonol a chyfrinachol ar-lein.

At ddiben y Ddeddf Diogelu Data 1998, ni yw rheolwyr data eich gwybodaeth bersonol.

Trwy ddefnyddio Gwefan Atal Tân, rydych yn cydnabod eich bod wedi darllen y Polisi hwn ac yn cydsynio i gasglu, defnyddio a datgelu eich gwybodaeth bersonol a chyfrinachol fel y nodir yn y Polisi hwn. Mae’r Polisi hwn wedi ei ymgorffori yn Nhelerau Defnyddio Gwefan Atal Tân [Insert link to Terms of Use - Welsh].

Rydym yn cadw’r hawl i ddiwygio, amrywio a/neu dynnu’r Polisi hwn yn ôl o bryd i’w gilydd. Os gwneir unrhyw newidiadau i’r Polisi hwn, byddwn yn rhoi gwybod ichi amdanynt, fodd bynnag, ni fydd yn gyfrifol am benderfynu ym mha fodd i roi gwybod ichi amdanynt.

1. Casglu Gwybodaeth bersonol a chyfrinachol

1.1 Gwybodaeth bersonol yw unrhyw wybodaeth amdanoch chi sy’n gallu dweud pwy ydych chi, megis eich enw, cyfeiriad post a chyfeiriad e-bost.

1.2 Mae gwybodaeth gyfrinachol yn golygu manylion eich cerdyn credyd/debyd.

1.3 Byddwn yn casglu’r wybodaeth bersonol a chyfrinachol a roddwch pan fyddwch yn gwneud rhodd neu daliad ariannol a/neu pan fyddwch yn llenwi ac yn darparu inni holiadur, arolwg, ffurflen archeb a/neu pan fyddwch yn cysylltu â ni trwy lythyr a/neu e-bost neu’r ffôn a/neu trwy Wefan Atal Tân.

1.4 Gallem ni hefyd gasglu gwybodaeth am eich defnydd o Wefan Atal Tân

pan fyddwch yn mynd i Wefan Atal Tân ac yn edrych arni, fel y disgrifir ym mharagraff 6 isod.

2. Defnyddio Gwybodaeth Bersonol a Chyfrinachol

Byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol a chyfrinachol at y dibenion canlynol:

2.1 os byddwch yn dymuno mynychu cwrs neu ddigwyddiad, at ddiben rheoli and gweinyddu eich archeb;

2.2 os byddwch yn prynu nwyddau neu wasanaethau, at ddiben prosesu eich archeb;

2.3 os byddwch yn llenwi holiadur neu arolwg, at ddiben coladu ac adrodd ynghylch canlyniadau holiadur neu arolwg o'r fath;

2.4 os byddwch yn gwneud rhodd neu daliad, at ddiben prosesu eich rhodd neu daliad;

2.5 at unrhyw ddiben sy'n codi'n rhesymol a/neu mewn cysylltiad â'ch defnydd o Wefan Atal Tân;

2.6 eich hysbysu am unrhyw newidiadau neu ddatblygiadau pwysig i Wefan Atal Tân neu ein busnes;

2.7 ar adegau, i wirio'r wybodaeth bersonol a/neu gyfrinachol yr ydych wedi ei darparu. Rydym yn cadw'r hawl i ofyn am ragor o wybodaeth bersonol a/neu gyfrinachol gennych chi ac i gynnal gwiriadau gyda thrydydd partïon priodol at y diben hwn;

2.8 i gysylltu â chi trwy'r post neu'r ffôn (yn cynnwys negeseuon lleisbost) i hyrwyddo ein nodau a'n hamcanion, i ofyn ichi wneud rhoddion, i roi manylion ein nwyddau a'n gwasanaethau ni a/neu rai trydydd partïon yr ydym ni o'r farn a allai fod o ddiddordeb i chi, ac i ofyn ichi lenwi holiaduron ac arolygon. Gallwch ddewis inni beidio â chysylltu â chi yn y ffordd hon at y dibenion hyn trwy ysgrifennu atom yn Llawr Gwaelod, 6 Hazell Drive, Casnewydd NP10 8FY, ein ffonio ni ar 01633 654000 neu anfon e-bost atom ar info@firebrake.org;

2.9 os ydych wedi cydsynio i hynny, i gysylltu â chi trwy'r ffacs neu'r e-bost i hyrwyddo ein nodau a'n hamcanion, i ofyn ichi wneud rhoddion, i roi manylion ein nwyddau a'n gwasanaethau ni a/neu rai trydydd partïon yr ydym ni o'r farn a allai fod o ddiddordeb i chi, ac i ofyn ichi lenwi holiaduron ac arolygon. Gallwch ddewis inni beidio â chysylltu â chi yn y ffordd hon at y dibenion hyn trwy ysgrifennu atom yn Llawr Gwaelod, 6 Hazell Drive, Casnewydd NP10 8FY, ein ffonio ni ar 01633 654000 neu anfon e-bost atom ar info@firebrake.org.

3. Datgelu Gwybodaeth Bersonol

3.1 Ni fyddwn yn gwerthu nac yn llogi'r wybodaeth bersonol yr ydym yn ei chasglu amdanoch chi i unrhyw drydydd partïon. Rydym, fodd bynnag, yn cadw'r hawl i ddatgelu eich gwybodaeth bersonol i rai trydydd partïon penodol fel a ganlyn:

(a) i unrhyw is-gontractwyr y gallem ni eu defnyddio i'n cynorthwyo i weithredu Gwefan Atal Tân;

(b) i ddarparwyr a gweinyddwyr cyrsiau a digwyddiadau, darparwyr nwyddau a gwasanaethau y byddwch yn eu prynu, trydydd partïon sydd â diddordeb yng nghanlyniadau unrhyw holiadur neu arolwg y byddwch yn eu llenwi, eich banc neu gymdeithas adeiladu, a thrydydd partïon sy'n prosesu rhoddion a thaliadau ar eich rhan;

(c) i drydydd partïon priodol at ddibenion gwirio eich gwybodaeth bersonol a/neu deilyngdod credyd fel y disgrifir ym mharagraff 2.7 uchod;

(d) pan fo angen datgelu (i) i ymateb i wyslythyr, gorchymyn llys neu gais gan y llywodraeth neu gais gan unrhyw awdurdod arall; (ii) at ddibenion gwneud achos cyfreithiol i sefydlu neu arfer ein hawliau cyfreithiol neu amddiffyn honiadau cyfreithiol yn ein herbyn; (iii) i ymchwilio, atal a/neu wneud achos cyfreithiol mewn perthynas â gweithgarwch anghyfreithlon posib, twyll a amheuir a/neu sefyllfaoedd sy'n ymwneud â bygythion posib i ddiogelwch corfforol unrhyw un; (iv) torri Telerau Defnyddio Gwefan Atal Tân neu amheuaeth o hynny; neu (v) fel y bo anghenraid neu ganiatâd i wneud hynny dan y gyfraith neu reoliadau;

(e) os bydd ein busnes yn ymrwymo i fenter ar y cyd neu'n cael ei werthu neu ei uno â busnes arall, gallai eich gwybodaeth gael ei datgelu i'r partneriaid neu'r perchnogion newydd.

3.2 Gall yr wybodaeth yr ydych yn ei darparu i ni gael ei drosglwyddo i le y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd ("AEE"), a'i storio yno. Gallai trydydd partïon hefyd gael mynediad ati neu gallai gael ei datgelu iddynt y tu allan i'r AEE, rhai ohonynt yn yr UDA, sy'n gweithredu ar ein rhan at y dibenion a nodir yn y Polisi hwn neu at ddibenion eraill a gymeradwyir gennych chi. Mae'r personau hynny'n prosesu gwybodaeth, yn prosesu taliadau cerdyn credyd a debyd ac yn darparu gwasanaethau cefnogol ar ein rhan. Trwy gyflwyno eich gwybodaeth bersonol a chyfrinachol, rydych yn cytuno i drosglwyddo, storio a/neu brosesu fel hyn.

3.3 Fe allem hefyd roi gwybodaeth gyfanredol ynglŷn â'r defnydd o Wefan Atal Tân i drydydd partïon, ond ni fydd hyn yn cynnwys gwybodaeth a ellir ei defnyddio i'ch adnabod chi.

4. Datgelu Gwybodaeth Gyfrinachol

Rydym yn cadw'r hawl i ddatgelu eich gwybodaeth gyfrinachol:

(a) i'ch banc neu ddarparwr cerdyn credyd/debyd ddiben cael taliad; a/neu

(b) i'n staff a thrydydd partïon sy'n prosesu taliadau cerdyn credyd/debyd ar ein rhan.

5. Diogelwch a Chywirdeb Gwybodaeth Bersonol a Chyfrinachol a Chadw Data

5.1 Mae gennym fesurau trefniadaethol mewn lle sydd â'r bwriad o ddiogelu eich gwybodaeth bersonol a chyfrinachol. Fodd bynnag, nid oes yr un system ar-lein nad yw'n bosib treiddio iddi, ac felly ni allwn warantu diogelwch eich gwybodaeth bersonol a chyfrinachol ar-lein. Byddwn yn defnyddio mesurau rhesymol i ddiogelu eich gwybodaeth bersonol a chyfrinachol rhag cael eu newid, eu colli neu eu

camddefnyddio. Byddwn yn cadw eich gwybodaeth am gyfnod rhesymol neu cyhyd ag y mae'r gyfraith yn gofyn inni wneud hynny.

5.2 Mae'r holl wybodaeth y byddwch yn ei darparu inni yn cael ei storio ar ein gweinyddwr diogel. Ni fyddwn yn gyfrifol am unrhyw wybodaeth bersonol y byddwch yn ei datgelu i drydydd partïon nad ydynt yn cynnig ffordd ddiogel i drosglwyddo.

5.3 Fe allai rhai taliadau y byddwch yn ei gwneud gael eu gwneud trwy'r system WorldPay. Nid ydym yn derbyn cyfrifoldeb am ddiogelwch unrhyw wybodaeth ariannol y byddwch yn ei datgelu trwy'r system WorldPay.

6. Casglu a Defnyddio Gwybodaeth Olrhain

6.1 Fe allem gasglu gwybodaeth am eich cyfrifiadur, yn cynnwys, ble bo hynny ar gael, eich cyfeiriad IP, y math o system weithredu a phorwr, a hynny at ddibenion gweinyddu'r system ac adrodd. Data ystadegol yw hyn am weithredoedd a phatrymau pori ein defnyddwyr, ac nid yw'n adnabod unrhyw unigolyn.

6.2 Fe allem hefyd ddefnyddio technoleg i gasglu gwybodaeth am batrymau ymddygiad ymwelwyr i Wefan Atal Tân. Fe allai hyn gynnwys defnyddio "cwcis" a fyddai'n cael ei storio ar eich porwr. Ffeil ddata fechan yw "Cwci", sy'n cynnwys gwybodaeth sy'n cael ei ysgrifennu ar yrrwr caled gan weinyddwr gwefan, ac yn cael ei defnyddio i olrhain y tudalennau yr edrychir arnynt. Bydd unrhyw wybodaeth a gesglir fel hyn yn cael ei defnyddio:

(a) i wella'ch defnydd o Wefan Atal Tân;

(b) i olrhain patrymau traffig ar Wefan Atal Tân; ac

(c) i ddarparu adroddiadau at ein defnydd mewnol ni a/neu i rywrai sy'n darparu cynnwys ar gyfer Gwefan Atal Tân, ac i gyflenwyr nwyddau a gwasanaethau a hysbysebir ar Wefan Atal Tân.

6.3 Gallwch reoli gosodiadau eich porwr y we o ran y “cwcis” trwy ddewis yn briodol ar eich porwr. Bydd hyn yn caniatáu ichi (i) atal eich porwr rhag derbyn "cwcis" newydd; (ii) cael eich porwr i ddweud wrthych pan fyddwch yn derbyn "cwci" newydd neu (iii) analluogi "cwcis" yn gyfan gwbl. Fe allai hyn, fodd bynnag, eich rhwystro rhag defnyddio rhai nodweddion ar Wefan Atal Tân.

6.4 Sylwer, fe allai rhywrai sy’n darparu cynnwys ar gyfer Gwefan Atal Tân a chyflenwyr nwyddau a gwasanaethau a hysbysebir ar Wefan Atal Tân hefyd fod yn defnyddio “cwcis”, ac nid oes gennym ni unrhyw reolaeth dros hynny.

7. Cael Mynediad a Diweddaru

Mae gennych hawl i weld yr wybodaeth bersonol sy’n cael ei dal amdanoch chi, a gallwch ofyn inni wneud unrhyw newidiadau angenrheidiol er mwyn sicrhau ei bod yn gywir ac wedi ei diweddaru. Os ydych yn dymuno gwneud hyn, cysylltwch â ni. Mae gennym ni hawl dan y gyfraith i godi ffi o £10 i ymorol am y costau o ddarparu manylion yr wybodaeth bersonol yr ydym yn ei dal amdanoch chi. Os byddwch yn rhoi gwybod inni trwy lythyr am unrhyw anghywirdeb, byddwch yn gwneud pob ymdrech resymol i gywiro’r wybodaeth bersonol yr ydym yn ei dal amdanoch.

8. Dolenni i Wefannau Eraill

O bryd i’w gilydd, gallai Gwefan Atal Tân gynnwys dolenni i wefannau partïon eraill, ac oddi ohonynt. Byddwn yn ymdrechu i sicrhau bod y dolenni i wefannau eraill yn cael eu nodi’n glir. Nid yw’r Polisi hwn yn ymwneud ag unrhyw drydydd partïon nad oes gennym ni reolaeth drostynt, na gwefannau eraill. Rydym yn argymell eich bod yn adolygu unrhyw bolisïau preifatrwydd sy’n ymwneud â gwefannau unrhyw drydydd partïon cyn ichi gyflwyno unrhyw wybodaeth bersonol i’r gwefannau hynny.

9. Dinistrio Gwybodaeth Bersonol a Chyfrinachol

Caiff y ffeiliau, y cofnodion a’r allbrintiau cyfrifiadurol sydd â data sensitif a gwybodaeth gyfrinachol arnynt eu dinistrio â llaw ac yn ddiogel. Bydd gwybodaeth bersonol a chyfrinachol a ddarperir trwy ddulliau electronig yn cael eu dileu o’n systemau yn rheolaidd.

10. Manylion Cysylltu

Os bydd gennych unrhyw gwestiynau neu sylwadau am ein Polisi Preifatrwydd, cysylltwch â ni trwy e-bost at info@firebrake.org, neu ysgrifennwch atom i'r Llawr Gwaelod, 6 Hazell Drive, Casnewydd NP10 8FY neu ein ffonio ar 01633 654000.